Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Absenoldeb Disgyblion
Ymateb gan Comisiynydd Plant Cymru

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee
Pupil absence
Evidence from Children's Commissioner for Wales

**Gwybodaeth gefndir am Gomisiynydd Plant Cymru**

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu pob rhan o bwerau datganoledig Senedd Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant. Mae CCUHP yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sylfaen ar gyfer llunio pob polisi i blant a phobl ifanc ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Trosolwg o'r ymateb**

Yn yr ymateb hwn rwy'n gwneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae addysg yn hawl ddynol i blant, ac, yn achos y rhan fwyaf o blant, mae mynd i'r ysgol yn dod ag ystod eang, ddwys o fanteision, gan ddarparu ar gyfer eu haddysg, eu llesiant a'u diogelwch.
- Mae'n eglur bod cyfraddau absenoldeb cyffredinol ac absenoldeb cyson wedi codi'n sylweddol ers y pandemig, ond mewn ysgolion uwchradd roedd absenoldeb cyson yn broblem cyn y pandemig hefyd.
- Mae'r negeseuon gan leoliadau, ac yn genedlaethol, ynghylch cyfraddau absenoldeb cyffredinol wedi newid o reidrwydd yn ystod y pandemig, ac mae'n debygol bod hynny wedi effeithio ar gyfraddau absenoldeb cyffredinol.

- Mae'r cynnydd mewn absenoldeb cyson yn awgrymu bod problemau rhai plant o ran mynychu'r ysgol yn gyson wedi cael eu hachosi'n uniongyrchol o bosib mewn ymateb i'r pandemig, neu bod y pandemig wedi'u gwneud yn waeth.
- Mae wedi bod yn anodd iawn i rai plant ailsefydlu trefn ddyddiol yr ysgol, ac adennill yr hyder a'r sgiliau i fynychu'r ysgol, cymdeithasu a dysgu mewn amgylchedd ystafell ddosbarth.
- Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod angen i ni ddeall absenoldeb cyson fel problem a all fod yn gysylltiedig â thlodi. Mae angen i gamau fydd yn atal ac yn taclo tlodi plant fod yn sbardun allweddol wrth leihau absenoldeb o'r ysgol.
- Mae ffigurau presenoldeb yn sylweddol is ymhlith plant yn y grwpiau oedran hynny lle nad oes hawl i deithio am ddim, ac mae angen gweithredu i estyn cwmpas y dysgwyr sydd â hawl i deithio.
- Dylid sicrhau bod dadansoddiad trylwyr o ddata presenoldeb ar gael i addysg a gwasanaethau eraill, er mwyn cefnogi dulliau unigol, lleol a chenedlaethol o atal absenoldeb cyson.
- Gall defnyddio mesurau cosbol yng nghyswllt absenoldeb arwain at ddatgofrestru, a gall y rhesymau gwaelodol dros absenoldeb cyson arwain at ddatgofrestru hefyd os nad ydynt yn derbyn sylw. Pan gaiff plentyn ei ddatgofrestru, gall fod heriau'n gysylltiedig â chanfod a yw'r plentyn mewn gwirionedd yn colli addysg, yn ogystal â'r potensial o ran effaith ehangach ar hawliau eraill plant, gan gynnwys iechyd/llesiant a risgiau uwch posibl o ran diogelu.
- Dylid sicrhau bod mesurau polisi i leihau absenoldeb ar lefel genedlaethol a lleol yn digwydd ochr yn ochr ag ymdrechion tebyg i atal a lleihau gwaharddiadau: yn 2017-18 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer) collwyd 79,750 diwrnod o ddysgu oherwydd gwaharddiadau.
- Wrth ailddatblygu cymwysterau 14-16, rhaid sicrhau cynnig cymwysterau sy'n golygu bod pob person ifanc yn gallu gwneud cynnydd a derbyn dyfarniad am eu cyflawniadau, a rhaid symud i ffwrdd oddi wrth system TGAU lle mae gormod o bobl ifanc yn colli cymhelliad oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn methu.
- Mae'r data'n awgrymu mai rhagdybiaeth synhwyrol fyddai cynllunio darpariaeth a gwasanaethau ar y sail bod angen mwy o gefnogaeth ar o leiaf ddeg y cant o blant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg nag sydd ar gael ar hyn o bryd, er mwyn gallu cael mynediad cyson at addysg wedi holl amharu'r ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae gweithredu fframwaith y Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol, a hynny'n llawn ac ar frys, yn allweddol i sicrhau dull gweithredu amlasiantaeth. Mae angen help ar ysgolion ar draws y sector statudol a'r trydydd sector i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael yr holl gefnogaeth mae arnyn nhw ei hangen.
- Rhaid i fentrau i gefnogi presenoldeb ar lefel y lleoliad ofalu nad ydynt yn stigmateiddio plant am absenoldeb.
- Dylai mesurau cosbol fod ar gael pan fetho popeth arall yn unig, pan fo pob ymgais arall i ymgysylltu wedi methu. Ni ddylid byth eu defnyddio na'u hawgrymu heb becyn o gefnogaeth i gyd-fynd â nhw.
- Bydd gwrando ar blant a phobl ifanc yn hanfodol i sicrhau cefnogaeth effeithiol ar lefel unigol.

**Lefelau o absenoldeb cyson a sut mae'r rhain yn cymharu â'r lefelau cyn y pandemig**

Cyrhaeddodd presenoldeb wythnosol cyffredinol yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol ei uchafbwynt ddechrau mis Medi, sef 93.6%, a chyrhaeddodd ei lefel isaf yn yr wythnos cyn gwyliau'r Nadolig, sef 72.6%. Yn yr wythnos olaf yr oedd data ar gael ar ei chyfer wrth i mi gasglu fy nhystiolaeth, yr wythnos hyd at 20 Mai 2022, lefel presenoldeb oedd 87.1%, ffigur sy'n ymddangos yn gymharol

nodweddiadol o safbwynt presenoldeb yn ystod diwedd tymor y gwanwyn a dechrau tymor yr haf yn y flwyddyn academaidd gyfredol.[1]

Er mwyn cymharu'r darlun cenedlaethol hwn ag absenoldeb cyn y pandemig, mae angen edrych ar flwyddyn academaidd 2018-19, gan mai dyna'r flwyddyn lawn olaf na fu i'r pandemig effeithio arni. Nid mater syml yw hynny, gan fod y data penodol a gasglwyd wedi newid. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Ansawdd[2], '*Ni ellir cymharu data [blwyddyn academaidd 21-22] chwaith â'r data presenoldeb a gyhoeddwyd gennym mewn blynyddoedd blaenorol… Mae'r data hanesyddol hwn yn cyfrif y sesiynau a fynychwyd yn hytrach na chyfrif y disgyblion oedd yn bresennol yn yr ysgol yn gorfforol. Yn hanesyddol, cyfrifwyd disgyblion nad ydynt ar safle'r ysgol, ond sy'n cyflawni gweithgaredd addysgol cymeradwy, fel rhai sy'n bresennol yn yr ysgol.*

Fodd bynnag, gan gadw'r caveat hwn mewn cof, ers y pandemig, mae'n eglur bod absenoldeb cyffredinol wedi cynyddu. Yn 2018/19, roedd yr absenoldeb cyffredinol mewn ysgolion uwchradd yn parhau'n gyson, ar 6.2%[3], ac ar 5.4%[4] mewn ysgolion cynradd. Mae'r ddau ffigur yma yn sylweddol is na lefel absenoldeb cyffredinol tebygol blwyddyn academaidd 2021-2, ac ar sail y data cyfredol[5] mae'n edrych yn debygol y gallai gyrraedd dwywaith y ffigur hwn.

Y diffiniad o **absenoldeb cyson** yw bod yn absennol am fwy nag 20% o'r holl sesiynau. Mewn ysgolion uwchradd roedd canran yr absenoldeb cyson yn 4.6% yn 2018/19; ar y pryd dyna oedd y lefel uchaf ers 2013/14. O ganlyniad, cyn y pandemig roedd mwy nag un plentyn ym mhob ystafell ddosbarth uwchradd yn absennol yn gyson, er y dylid nodi bod plant hŷn yn anghymesur fwy tebygol o fod yn y grŵp hwn, yn hytrach na bod dosbarthiad cyfartal ar draws y grwpiau oedran. Felly rydym ni'n gwybod bod hyn eisoes yn broblem cyn y pandemig. Mewn ysgolion cynradd, roedd canran y plant oedd yn absennol yn gyson yn llawer is, sef 1.8%.[6]

Ni chyhoeddwyd data ynghylch absenoldeb cyson mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd hon, ond mae data dangosol a rannwyd gyda'm swyddfa yn awgrymu y gallai'r rhai sy'n absennol yn gyson fod yn fwy na dwywaith y lefelau arferol cyn y pandemig, felly gallwn greu cyfatebiaeth fras iawn o ddau blentyn o leiaf ym mhob dosbarth o dri deg. O blith y grŵp hwnnw, nid yw rhai plant wedi dychwelyd i leoliadau ers y pandemig. Er nad yw'r grŵp sydd heb ddychwelyd o gwbl yn ganran fawr, yn ôl yr hyn rwy'n deall, mae hynny'n wir am gannoedd o blant ledled Cymru.

**Pam mae absenoldeb nad yw'n gysylltiedig â Covid yn uwch na chyn pandemig COVID 19?**

Yn gyntaf, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng absenoldeb cyson a'r ffigurau uwch ar gyfer absenoldeb cyffredinol. Ymddengys bod cynnydd sylweddol yn y ddau, ond gallai fod rhesymau digon gwahanol am y ddau beth.

[1] https://gov.wales/attendance-pupils-maintained-schools-6-september-2021-20-may-2022
[2] https://gov.wales/pupils-present-maintained-schools-quality-report-html#section-53409https://gov.wales/pupils-present-maintained-schools-quality-report-html#section-53409
[3] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/absenteeism-from-secondary-schools-september-2018-august-2019-318.pdf
[4] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/absenteeism-primary-schools-september-2018-august-2019-975.pdf
[5] https://gov.wales/attendance-pupils-maintained-schools-6-september-2021-20-may-2022
[6] https://gov.wales/absenteeism-schools-pupil-characteristics-september-2018-august-2019

O ran absenoldeb cyffredinol, cyn y pandemig roedd negeseuon clir iawn gan leoliadau addysg ynghylch absenoldeb, a ffocws clir ar draws ysgolion i leihau ac atal absenoldeb. Mae hynny, o reidrwydd, wedi newid yn ystod y pandemig. Wrth bontio i'r cyfnod wedi'r pandemig mae angen i ni ystyried pa negeseuon mae teuluoedd yn cael ynghylch absenoldeb ac effaith absenoldeb. Mae ein hymddygiad wedi newid yn ystod y pandemig: mae'n bosib iawn bod teuluoedd yn awr yn cwestiynu beth dylen nhw ei wneud yn achos salwch nad yw'n ddifrifol, er enghraifft heintiau â symptomau ysgafn, pan fydd eu plentyn yn ddigon iach i fynd i'r ysgol. O ystyried negeseuon iechyd cyhoeddus y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n ddealladwy y gallai teuluoedd deimlo nawr y dylen nhw gadw plant gartref. Ar ben hynny, gallai mwy o deuluoedd deimlo'n barod i dynnu plant allan o'r ysgol ar gyfer digwyddiadau teuluol neu wyliau. Gallai hynny fod yn rhannol oherwydd nad yw ysgolion, wrth gwrs, wedi bod yn rhoi'r un negeseuon ynghylch lleihau absenoldeb yn ystod y pandemig, ond hefyd oherwydd bod teuluoedd wedi cael llawer llai o gyfleoedd i wneud hyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn sgîl y cyfyngiadau ar gymdeithasu a theithio.

Gall y rhesymau am absenoldeb cyson orgyffwrdd â'r uchod, ond yn aml gallan nhw fod yn llawer mwy cymhleth. Rydym ni'n gwybod bod absenoldeb cyson eisoes yn broblem i ryw 5% o blant mewn lleoliadau uwchradd cyn y pandemig. Ond mae'r cynnydd mewn absenoldeb yn awgrymu bod y problemau mae rhai plant yn neu hwynebu o ran mynychu'r ysgol yn gyson wedi cael eu sbarduno'n uniongyrchol o bosib mewn ymateb i'r pandemig, neu bod y pandemig wedi'u gwneud yn waeth.

Dangosodd yr ymgyngoriadau a gyflwynwyd gan fy swyddfa yn ystod y cyfnodau clo ystod eang o ymatebion gan blant a phobl ifanc[7] [8]. Er bod elfen gref o blant a phobl ifanc oedd yn awchu am gael dychwelyd i'r ysgol ar gyfer cymdeithasu a dysgu, roedd rhai plant a phobl ifanc yn hapusach allan o'r ysgol. Roedd rhai plant yn teimlo rhyddhad i gael egwyl o'r bwlio neu bwysau cymdeithasol yr ysgol. Roedd yn well gan rai plant a phobl ifanc fod gartref, allan o amgylchedd prysur a swnllyd yr ysgol. Esboniodd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg mai'r rheswm am hynny oedd eu bod yn niwro-amrywiol, a'u bod yn cael amgylchedd yr ysgol yn heriol. Disgrifiodd nifer amlwg uchel o blant a phobl eu bod wrth eu bodd yn cael rhyddid i gyfeirio'u dysgu a'u chwarae eu hunain, a'u bod yn mwynhau treulio mwy o amser gyda'u teulu 'heb ruthro'[9].

Soniodd pobl ifanc hŷn hefyd am golli hyder a chymhelliad yng nghyswllt addysg. Roedd lefelau hyder ynghylch dysgu yn gostwng gydag oed, ac ym mis Ionawr 2021, nid oedd 55% o bobl ifanc 15 oed yn teimlo'n hyderus ynghylch eu dysgu[10]. Adroddodd llawer iawn o bobl ifanc hŷn eu bod wedi colli cymhelliad o ran eu gwaith ysgol: ym mis Ionawr 2021 dywedodd 59% o bobl ifanc 12-18 oed nad oedden nhw'n teimlo cymhelliad i ddysgu gartref. Dywedodd 11% o'r ystod oed yma nad oedden nhw'n dysgu gartref o gwbl. [11] Byddwn i'n awgrymu bod hwn yn fater pwysig i bobl ifanc, a bod angen ei archwilio ymhellach er mwyn deall mwy am y ffactorau y tu ôl i gymhelliad, a sut mae ailennyn a chynnal cymhelliad pobl ifanc o ran eu hymgysylltiad ag addysg, lle mae hynny wedi cael ei golli o bosib.

Mae'r data hyn yn dangos bod effaith y pandemig ar hyder wrth ddysgu nid yn unig yn eang, ond bod cyfran sylweddol o blant a phobl ifanc wedi treulio cyfnodau hir heb ymgysylltu â dysgu o gwbl. Maent

[7] www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_EN.pdf
[8] https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/coronavirus-and-me-survey-results-2021/
[9] www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_EN.pdf
[10] https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/coronavirus-and-me-survey-results-2021/
[11] Ibid.

hefyd yn dangos bod rhai plant a phobl ifanc wedi croesawu amser gartref, a'u bod o bosib yn amharod i ddychwelyd i amgylcheddau ysgol, neu'n bryderus ynghylch hynny. Yn achos rhai plant, mae ailsefydlu trefn arferol yr ysgol a meithrin o'r newydd yr hyder a'r sgiliau i fynychu'r ysgol, cymdeithasu a dysgu mewn amgylchedd ystafell ddosbarth, wedi bod yn anodd iawn.

Gall fod rhesymau cymhleth hefyd yn achosi'r anawsterau mae rhai plant yn eu profi, a all fod wedi cael eu gwaethygu gan yr amharu ar drefniadau dyddiol a gwasanaethau yn ystod y pandemig, a hynny o ran y plentyn a hefyd y teulu ehangach neu'r gymuned. Gall rhwystrau mynediad gynnwys anawsterau penodol cysylltiedig â niwro-amrywiaeth neu anghenion dysgu ychwanegol eraill; dengys data cenedlaethol cyn y pandemig fod absenoldeb cyson ac absenoldeb cyffredinol yn fwy cyffredin ymhlith disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.[12]

Gall ffactorau eraill gynnwys anghenion iechyd y plentyn neu aelodau o'r teulu, gan gynnwys anghenion iechyd meddwl. Mae amharu ar gefnogaeth barhaus yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi gallu golygu bod problemau a oedd eisoes yn gymhleth yn gwreiddio'n ddwfn, a gallai anawsterau gael eu dwysáu ymhellach gan argyfwng costau byw ac effeithiau parhaus a dwys tlodi plant.

Mae Covid hir yn ffactor arall posibl a allai fod yn cyfrannu at gynnydd mewn absenoldeb cyson. Gallai hynny gael ei brofi gan y plentyn, neu gan aelodau o'u teulu, gydag effaith o ganlyniad ar y plentyn. Byddwn i'n awgrymu y byddai ymchwil ychwanegol o gymorth i ddeall effaith feddygol a chymdeithasol cyflyrau lludded cronig ôl-firaol ar blant.

**A yw absenoldeb cyson yn fwy amlwg ymhlith grwpiau penodol o ddisgyblion (rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, bechgyn a merched, grwpiau oed penodol, ethnigrwydd), ac os felly, beth yw'r rhesymau am hynny?**

Yn genedlaethol, cyhoeddir data wythnosol, wedi'i rannu yn ôl oedran (grŵp blwyddyn), hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, rhywedd ac awdurdod lleol.

Ymddengys canrannau absenoldeb yn gyffredinol gyson rhwng awdurdodau lleol, heb unrhyw ddata clir yn dod i'r amlwg ar unwaith y tu allan i'r patrwm: yn yr wythnos hyd at 20 Mai roedd gwahaniaeth o bedwar pwynt canradd rhwng yr awdurdod lleol â'r lefel uchaf o bresenoldeb a'r awdurdod â'r isaf, ac mae hynny'n ystod nodweddiadol ar gyfer y rhan fwyaf o wythnosau diweddar.[13] Mae gwahaniaethau bach o ran rhywedd, ond (ac eithrio yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig) nid yw'r rheiny'n cyfateb i fwy nag 1% mewn unrhyw wythnos benodol. Fesul grŵp blwyddyn, mae'r presenoldeb cyfartalog yn y flwyddyn hyd yma ar ei isaf ymhlith y rhai nad ydynt yn oed ysgol gorfodol: mae plant meithrin yn dangos presenoldeb o 83% (N1) ac 83.9% (N2). Mae presenoldeb ôl-16 yn 83.7% ym Mlwyddyn 12 ac yn 77% ym Mlwyddyn 13. Mewn ysgolion cynradd mae'r presenoldeb cyfartalog tua 89-90% yn achos y rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn. Mewn ysgolion uwchradd, mae presenoldeb yn lleihau'n gyson fesul blwyddyn, o 88.8% ym Mlwyddyn 7 i 84.5% ym Mlwyddyn 11.

Mae plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi bod yn sylweddol fwy tebygol o fod yn absennol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf na'r rhai nad ydynt yn gymwys. Yn yr wythnos yn diweddu ar 20 Mai 2022, bu 81.6% o'r plant oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn mynychu'r

[12] https://gov.wales/absenteeism-schools-pupil-characteristics-september-2018-august-2019
[13] https://gov.wales/attendance-pupils-maintained-schools-6-september-2021-20-may-2022

ysgol, o gymharu ag 88.7% o'r plant nad ydynt yn gymwys – gwahaniaeth o fwy na 7%. Mae'r darlun hwn yn gyson ar draws pob wythnos o'r flwyddyn ddiwethaf: nid oes un wythnos pan yw'r plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol na'u cyfoedion i fod yn yr ysgol. Mae hynny'n cyd-fynd â data cenedlaethol cyn y pandemig sy'n dangos yn gyson bod absenoldeb cyson ac absenoldeb cyffredinol yn fwy cyffredin ymhlith disgyblion sy'n gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim. [14]

Mae hyn yn amlygu unwaith yn rhagor effaith bosibl tlodi ar blant yng Nghymru: ar eu profiadau o ddydd i ddydd, a'u canlyniadau hirdymor. Mae'r data hyn yn awgrymu bod angen i ni ddeall absenoldeb cyson fel problem a all fod yn gysylltiedig â thlodi. Mae angen i gamau i atal a thaclo tlodi plant fod yn sbardun allweddol wrth leihau absenoldeb o'r ysgol. Ar lefel ysgol hefyd, rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw tlodi yn rhwystr i bresenoldeb. Rhannodd adroddiad o'm swyddfa i yn 2019 ar effaith tlodi plant[15] bryderon a rannwyd gan ddisgyblion a rhieni/gofalwyr ynghylch y costau ychwanegol niferus sy'n gysylltiedig â mynychu'r ysgol, gan gynnwys talu am gyflenwadau megis llyfrau, technoleg, cyflenwadau celf a chrefft, cyflenwadau ysgrifennu, bagiau ysgol, costau mynychu digwyddiadau arbennig yn yr ysgol, tripiau ysgol, a mentrau codi arian. Bu plant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr hefyd yn trafod costau clybiau ar ôl ysgol os nad oes bws am ddim o'r ysgol ar gael. Fel y dywedodd un rhiant, "*Mae ysgolion yn llawer rhy ddrud i bobl sydd o'r braidd yn gallu fforddio bwyd."* Bydd adnoddau a gynhyrchwyd gan fy swyddfa[16] fel rhan o'r gwaith hwnnw yn 2019 yn cefnogi ysgolion i wirio cost eu diwrnod ysgol, a chadw costau gwisg ysgol ac eraill mor isel â phosibl. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ynghylch gwisg ysgol hefyd yn nodi'n eglur mai dyma ddylai ddigwydd[17]. Fodd bynnag, mae fy swyddfa'n dal yn ymwybodol o ysgolion sydd â gofynion gwisg ysgol drud, a lle mae llawer o blant yn cael eu cau allan o deithiau ysgol a digwyddiadau oherwydd eu bod yn cael eu hatal gan y costau.

Mae teithio i leoliadau addysg yn parhau'n rhwystr hefyd, yn arbennig yn achos plant a phobl ifanc nad ydynt yn oed addysg orfodol, lle nad oes dyletswydd statudol i ddarparu trafnidiaeth. Eto, mae potensial yma i effeithio'n anghymesur ar blant mewn tlodi sydd o bosib heb fynediad hwylus at opsiynau trafnidiaeth (er enghraifft methu fforddio tocynnau bws, a heb gerbyd preifat). Mae ffigurau presenoldeb, fel y dangosir uchod, yn sylweddol is ymhlith plant y grwpiau blwyddyn hynny nad ydynt yn gallu hawlio teithio am ddim. Mae teithio gan ddsygwyr wedi bod yn flaenoriaeth i'm swyddfa ers rhai blynyddoedd, gydag argymhellion yn Adroddiadau Blynyddol fy rhagflaenydd yn 2015/16 a 2018/19[18]. Mae'r adolygiad interim[19] ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn glir nad yw'r Mesur yn addas at y diben, ac rwy'n parhau â gwaith fy rhagflaenydd i bwyso ar y Llywodraeth i gymryd camau amserol i gyflawni'r hyn a gynigiwyd yn yr adolygiad, ac rwy'n argymell yn gryf eu bod yn cael eu cwblhau yn y tymor Senedd hwn.

Rwyf hefyd yn argymell bod data presenoldeb eleni yn cael ei ddadansoddi'n drylwyr. O ystyried effaith y pandemig, gallai'r data ynghylch absenoldeb cyson a chyffredinol eleni fod yn wahanol iawn i'r data cyn y pandemig. Cofnodwyd effaith anghymesur y pandemig ar grwpiau penodol o blant yn helaeth, gan

---

14 https://gov.wales/absenteeism-schools-pupil-characteristics-september-2018-august-2019

15 https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/A-Charter-for-Change-Protecting-Welsh-Children-from-the-Impact-of-Poverty.pdf

16 https://www.childcomwales.org.uk/a-charter-for-change-resources/

17 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/statutory-guidance-for-school-governing-bodies-on-school-uniform-and-appearance-policies.pdf

18 https://www.childcomwales.org.uk/categories/annual-reports/

19 Learner Travel (Wales) Measure (2008) review 2021 [HTML] | GOV.WALES

gynnwys yn adroddiadau fy swyddfa ar brofiadau plant anabl[20] a phlant o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.[21] Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio'n arbennig ar ofalwyr ifanc, gan fod yr amharu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn aml wedi effeithio ar eu bywyd teuluol a'u cyfrifoldebau gofalu.[22] Bu effeithiau penodol hefyd ar bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gydag amharu ar drefniadau cyswllt teuluol.[23] Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio'n anghymesur ar blant sy'n byw mewn tlodi neu'n agos at hynny.[24]

Nid oes modd cael mynediad at ddata sydd ar gael i'r cyhoedd fesul pob un o'r nodweddion gwarchodedig, na chwaith fesul rhai o'r grwpiau eraill a nodir uchod. O ganlyniad, rwy'n argymell bod y data presenoldeb yn cael ei ddadgrynhoi, ar lefel genedlaethol ac awdurdod lleol, a'i rannu gyda lleoliadau addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill ar lefel leol a rhanbarthol. Rwyf hefyd yn argymell bod hyn yn cael ei wneud mewn da bryd cyn dychwelyd i leoliadau ym mis Medi 2022. Bydd hyn yn galluogi gwasanaethau cenedlaethol a lleol i gynllunio yn ôl y nodweddion demograffig a nodwyd, a bydd hefyd yn golygu bod modd defnyddio dulliau ar lefel leol sy'n sensitif i anghenion penodol rhai grwpiau: mae angen dulliau gwahanol iawn ar gyfer plant ifanc o gymharu â phobl ifanc hŷn.

**Y risgiau a'r canlyniadau tymor byr a thymor hwy ar gyfer dysgwyr, er enghraifft o ran iechyd meddwl a llesiant, a dysgu a chyrhaeddiad.**

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i gael addysg; ac mae dyletswydd ar y wladwriaeth i sicrhau bod pob plentyn yn profi addysg. Mae colli addysg yn cael effeithiau uniongyrchol a thymor hir ar blant, nid ar eu cynnydd wrth ddysgu yn unig, ond hefyd ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol, a'u datblygiad cymdeithasol. Mae addysg yn hawl ddynol i blant, ac yn achos y mwyafrif o blant, mae mynd i'r ysgol yn arwain at ystod eang a dwys o fanteision, sy'n darparu ar gyfer eu haddysg, eu llesiant a'u diogelwch.

**A yw absenoldeb wedi arwain at lefel uwch o ddatgofrestru disgyblion ac unrhyw orgyffwrdd â dewis addysgu gartref.**

Mae fy swyddfa yn ymwybodol o gynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion a fu'n datgofrestru o leoliadau ers dechrau'r pandemig. Mae modd cysylltu lefelau uchel o absenoldeb â datgofrestru oherwydd gall mesurau i gosbi absenoldeb megis hysbysiadau cosb sefydlog neu orchmynion presenoldeb yn yr ysgol olygu bod rhai teuluoedd yn dewis datgofrestru eu plentyn. Fodd bynnag, mae'n annhebygol iawn mai dyma achos gwaelodol y cynnydd mewn datgofrestru yn ystod y pandemig, gan fod y Llywodraeth wedi annog awdurdodau lleol yn gryf i beidio â defnyddio mesurau cosbol, ac ychydig iawn o fesurau cosbol sydd wedi cael eu cyflwyno yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Ymddengys yn fwy tebygol bod y cynnydd yn ystod y pandemig wedi digwydd yn rhannol oherwydd pryderon ynghylch Covid, efallai yn arbennig felly mewn teuluoedd lle mae ffactorau clinigol sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Mae canlyniadau arolygon o'm swyddfa hefyd yn dangos bod llawer o blant wedi mwynhau'r profiad o ddysgu gartref yn ystod y cyfnodau clo, ac fe allai'r cynnydd mewn addysgu gartref fod yn dangos eu bod nhw a'u teuluoedd am barhau â'r profiad hwnnw.

[20] https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/coronavirus-and-me-bame-children/
[21] https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/experiences-of-disabled-children/
[22] https://senedd.wales/media/ixzpwqr5/cr-ld14286-e.pdf

[23] Ibid.
[24] Ibid.

Fodd bynnag, cyn y pandemig, adroddodd awdurdodau lleol wrth fy swyddfa eu bod yn ymwybodol o achosion lle mae mesurau cosbol mewn perthynas ag absenoldeb wedi arwain at ddatgofrestru. Gall teuluoedd wneud y penderfyniad hwn i osgoi talu dirwyon, neu oherwydd eu bod yn methu talu dirwyon. Gall teuluoedd wneud y penderfyniad hwn hefyd oherwydd bod mesurau cosbol yn cyfrannu at chwalu'r berthynas rhwng y teulu a'u hawdurdod lleol, neu'r ysgol, neu oherwydd nad yw'r berthynas bellach yn adeiladol erbyn i'r rhain gael eu cyflwyno.

Gall y rhesymau sy'n sail ar gyfer absenoldeb cyson hefyd arwain at ddatgofrestru. Efallai bod plant a phobl ifanc yn absennol yn gyson oherwydd bwlio, gan gynnwys bwlio cysylltiedig â rhagfarn, cam-drin hiliol neu aflonyddu rhywiol. Efallai bod plant a phobl ifanc yn cael bod dysgu neu gymdeithasu yn yr ysgol yn rhy anodd oherwydd nad oes sylw'n cael ei roi i anghenion dysgu ychwanegol. Efallai bod gan blant gyfrifoldebau gofalu gartref. Efallai bod perthynas wael rhwng plentyn neu berson ifanc a'u hathrawon, neu efallai nad yw plentyn yn teimlo croeso yn yr ysgol, a bod neb yn ei hoffi. Yn Arolwg Y Ffordd Gywir i Addysg gan fy swyddfa yn 2018, dim ond 46% o'r ymatebwyr oed uwchradd ddywedodd fod 'pob person ifanc yn teimlo eu bod yn cael croeso' yn eu lleoliad addysg.[25] Os na chaiff rhesymau gwaelodol am absenoldeb eu harchwilio a'u deall, ac os na roddir camau ar waith i geisio datrys y rhain a chynnig cefnogaeth ychwanegol, gallai'r teulu gyrraedd pwynt lle nad yw'r ysgol bellach yn rhywle lle maen nhw'n teimlo y gall eu plentyn ffynnu, a gallan nhw deimlo nad oes dewis heblaw datgofrestru.

Yn yr achosion hyn gall datgofrestru fod yn ymateb, ac nid yw hynny bob amser yr un fath â gwneud dewis rhagweithiol cadarnhaol i addysgu gartref. Gall addysgu gartref gynnig profiad llesol iawn lle mae plant yn dysgu, yn ffynnu, yn cymdeithasu ac yn chwarae. Mae plant a phobl ifanc a addysgwyd gartref wedi disgrifio wrth fy swyddfa y profiadau cadarnhaol iawn a gawsant, a hefyd wedi disgrifio ymroddiad a sgiliau eu teuluoedd wrth gefnogi a galluogi eu profiadau.

Ond pan fydd teulu'n datgofrestru plentyn fel ymateb oherwydd eu bod yn teimlo nad oes dewis arall ganddynt, gallant wynebu heriau gwirioneddol wrth geisio parhau i ddiwallu anghenion addysgol eu plentyn, a fydd o bosib eisoes wedi cael profiad anodd, a thrawmatig ar brydiau, yn yr ysgol. Ni fydd teuluoedd sydd wedi datgofrestru o reidrwydd yn derbyn unrhyw gefnogaeth allanol reolaidd, er enghraifft gan weithwyr addysg proffesiynol. Er bod teuluoedd yn dal i fedru cael mynediad i wasanaethau iechyd cyffredinol, ac y dylent gael cefnogaeth gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol gan eu hawdurdod lleol, ni fydd mynediad hwylus ar gael i wasanaethau fel y gefnogaeth ar gyfer llesiant sydd ar gael trwy'r dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddyliol ac emosiynol, na'r gwasanaeth cwnsela annibynnol mewn ysgolion. Hefyd mae goblygiadau sylweddol o ran capasiti ac adnoddau, nid lleiaf oherwydd y gall addysgu gartref olygu bod rhaid i riant neu ofalwr leihau oriau gwaith y tu allan i'r cartref, gydag effaith o ganlyniad ar incwm y teulu. O ganlyniad i'r anawsterau hyn, mewn rhai achosion gall plant sydd wedi cael eu datgofrestru fod yn colli addysg.

Fel y nodwyd yn glir gan fy rhagflaenydd, gall fod yn heriol i awdurdodau lleol wybod ai dyma'r sefyllfa neu beidio: cyn y pandemig, roedd gweithiwr proffesiynol yn eu hawdurdod lleol yn cwrdd â llai na hanner o'r plant oedd yn cael eu haddysgu gartref. Mae cynnydd yn y niferoedd sydd ddim yn derbyn eu haddysg trwy leoliad ysgol yn debygol o greu straen pellach ar adnoddau cyfyngedig yn y maes hwn. Mae hyn yn creu rhwystr o safbwynt gallu awdurdodau i ddeall anghenion, cynnig cefnogaeth barhaus, neu gefnogi dychwelyd i leoliad ysgol os yw hynny er lles pennaf y plentyn.

[25] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/Childrens-Rights-Survey.pdf

**Effeithiolrwydd polisïau a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru**

Rwy'n rhannu'r adran hon yn bolisïau a dulliau gweithredu a allai danseilio ymdrechion i leihau absenoldeb, gan ganolbwyntio wedyn ar effeithiolrwydd mentrau sydd eisoes yn bodoli i atal ac ymateb i absenoldeb.

**Gwaharddiadau a phresenoldeb**

Mae cyflwyno gwaharddiadau cyfnod penodol ar y naill law, a chymryd camau i leihau absenoldeb ar y llall yn gwrthddweud ei gilydd ar lefel resymegol sylfaenol. Dangosodd ymchwil gan fy swyddfa ar wahardd ac ynysu plant ifanc ym mlwyddyn academaidd 2018/19 fod plant 8 oed a than hynny wedi derbyn 768 o waharddiadau cyfnod penodol ar draws 19 o awdurdodau lleol.[26] Mewn cyd-destun ehangach, ym mlwyddyn academaidd 2017/18 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae niferoedd ar gael yn gyhoeddus ar ei chyfer) cyflwynwyd 18,125 o waharddiadau ar draws Cymru, am 4.4 o ddiwrnodau ar gyfartaledd.[27] Mae hynny'n cynrychioli gorfodi absenoldeb o leoliadau addysg am 79,750 o ddiwrnodau.

Rwy'n argymell yn gryf y dylai sbardunau polisi a mesurau i leihau absenoldeb ar lefel genedlaethol a lleol ddigwydd ochr yn ochr ag ymdrechion tebyg i atal a lleihau gwaharddiadau. Mae bwriad y Llywodraeth i ddiwygio'r canllawiau statudol ar waharddiadau yn gyfle pwysig i roi sylw i hyn ar lefel genedlaethol.

Rwyf hefyd yn awgrymu ei fod yn bosibl mai plant unigol sy'n derbyn gwaharddiadau yw'r rhai mwy tebygol o fod â lefelau uchel o absenoldeb, a byddai'n werthfawr ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn deall a yw gwaharddiadau hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu at lefelau absenoldeb plant unigol.

**Cymwysterau 14-16**

Amlygodd yr ymgynghoriad cenedlaethol a gynhaliwyd gan fy rhagflaenydd[28] yn 2019 mai pryderon ynghylch gwaith ysgol ac arholiadau oedd y flaenoriaeth uchaf ymhlith pryderon pobl ifanc. Dangosir hyn gan y ffaith bod 45% o bobl ifanc 11-18 oed wedi dewis nodi eu bod yn pryderu neu'n pryderu'n fawr am arholiadau a gwaith ysgol, a thrwy'r ymatebion ansoddol: "Rwy'n pryderu fwyaf am arholiadau TGAU." (Bachgen, 11). Gall pwysau arholiad hefyd fod yn ffactor sy'n arwain at lefelau uwch o absenoldeb ymhlith pobl ifanc hŷn ym Mlwyddyn 11.

Mae'r gwasanaeth gwaith achosion a'r rhaglen o gyfranogiad gyda phobl ifanc a gyflwynwyd gan fy swyddfa wedi darparu rhagor o wybodaeth sy'n awgrymu bod y pryder hwn yn ymwneud, nid â straen arholiadau yn unig, ond hefyd â'r effaith ar hunan-barch a chymhelliad pan fydd pobl ifanc, ac eraill, yn barnu eu bod yn methu. Mae pobl ifanc wedi disgrifio wrth swyddogion effaith negyddol derbyn graddau TGAU dangosol isel (neu raddau targed) ar eu morâl, a'r diffyg opsiynau sydd ar gael iddyn nhw o ran dilyn cwrs gwahanol neu gaffael cymwysterau gwahanol. Mae llawer o bobl ifanc wedi esbonio sut maen nhw wedi datgysylltu o lwybr cymwysterau sy'n disgrifio methiant yn eu cynnydd, ac yng Nghymru mae cyfran sylweddol o bobl ifanc yn methu ar lefel TGAU bob blwyddyn.

[26] https://www.childcomwales.org.uk/publications/building-blocks/
[27] https://gov.wales/ad-hoc-statistical-requests-17-28-february-2020
[28] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/What-Now-Report.pdf

Mae cynnig cul o ran cymwysterau, lle nad yw niferoedd sylweddol o bobl ifanc yn cael llwyddiant mawr, yn sicr yn lleihau cymhelliad pobl ifanc, a gallai gyfrannu at y gyfradd absenoldeb gynyddol wrth i bobl ifanc symud at asesiadau crynodol. Mae cysylltiadau â gwasanaeth gwaith achosion annibynnol fy swyddfa yn dangos y bydd rhai pobl ifanc, ar ôl colli cymhelliad yn eu dysgu rhwng 14 ac 16 oed, hefyd yn datgofrestru o'r ysgol, neu'n gwrthod mynd i'r ysgol, cyn diwedd cyfnod oed ysgol gorfodol. Ni fydd llawer o'r bobl ifanc hyn a gefnogir gan fy ngwasanaeth gwaith achosion erioed wedi cael cynnig llwybr cymwysterau arall ar gyfer TGAU.

Mae gwaith i ailddatblygu cymwysterau TGAU a'r cynnig ehangach 14-16 bellach ar waith gan Gymwysterau Cymru, i gyd-fynd â gweithredu'r cwricwlwm newydd. Mae hyn yn cynnig cyfle i ddatblygu cyfres o gymwysterau 14-16 lle gall pob person ifanc wneud cynnydd a derbyn dyfarniad am eu cyflawniadau. Mae'n bwysig nid yn unig bod angen datblygu'r cymwysterau hyn, ond hefyd bod angen sicrhau eu bod ar gael i blant yn yr ysgol *cyn* iddyn nhw golli diddordeb. Yn hanesyddol, roedd yr opsiynau ar lwybrau 14-19 yn cynnig llwybrau cymhwyso oedd yn werthfawr i lawer o bobl ifanc. Dylid darparu gael cwrs astudio ystyrlon, sy'n rhoi boddhad, y mae modd cael mynediad iddo a chyflawni'n dda ynddo, i bob person ifanc yn 14 oed. Nid yw'n syndod bod absenoldeb mewn system lle mae disgwyl i nifer fawr o bobl ifanc fethu.

**Lefel ac effeithiolrwydd y gweithredu a'r gefnogaeth gan ysgolion, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru**

Darparwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r adferiad wedi'r pandemig, yn arbennig yn achos disgyblion Blwyddyn 11, lle darparwyd £1.28miliwn i gefnogi dysgwyr blwyddyn 11 i wneud cynnydd ac £8.5miliwn o gyllid pontio penodol i golegau a chweched dosbarth ysgolion i gefnogi pobl ifanc i symud i leoliadau ôl-16. Mae lleoliadau lleol wedi defnyddio peth o'r cyllid hwn i ymdrin ag absenoldeb cyson. Mae adroddiadau lleol wedi sôn am ddefnyddio'r cyllid ar gyfer paneli amlddisgyblaeth i drafod anghenion y plentyn a'r teulu a datblygu pecyn eang o gefnogaeth. Ymhlith y mentrau eraill mae gweithwyr ieuenctid wedi ymgysylltu â'r person ifanc i'w hannog i ddychwelyd i'r ysgol a chynyddu'r gefnogaeth unigol a gynigir gan fwy o staff bugeiliol mewn ysgolion. Disgrifiodd awdurdodau lleol hefyd rai anawsterau recriwtio yn ystod y flwyddyn academaidd hon, ac mae'n bosibl, yn sgîl y prinder staff a welwyd ar draws ein sector cyhoeddus, y gall fod yn anodd neilltuo mwy o staff i ddarparu'r gefnogaeth unigol sy'n mynd i'r afael â hyn orau, hyd yn oed o dderbyn cyllid hael.

Mae lefelau absenoldeb cyson (fel y manylwyd eisoes yn yr ymateb hwn) yn awgrymu i mi mai rhagdybiaeth gall fyddai cynllunio darpariaeth a gwasanaethau ar y sail bod angen mwy o gefnogaeth wedi'i theilwra a'i thargedu ar o leiaf ddeg y cant o blant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg os ydynt i gael mynediad cyson i addysg wedi holl aflonyddwch y ddwy flynedd ddiwethaf. Nodaf fod angen mwy o hyn, oherwydd mae'r rhagdybiaeth gynllunio hon yn ymwneud â'r rhai sydd eisoes yn absennol yn gyson, ac y mae arnynt angen mesurau ychwanegol, y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar gael.

Ynghudd yn y ffigurau presenoldeb hefyd bydd y grŵp o blant sydd mewn perygl o fod yn absennol yn gyson ond sydd, oherwydd ymroddiad a sgiliau eu hathrawon, eu teuluoedd, a gweithwyr cefnogi proffesiynol eraill, yn mynychu'r ysgol. Gallai fod angen parhaus am y gefnogaeth hon ar lawer o'r grŵp hwn i barhau. O ganlyniad, mae'n rhaid cyflwyno cefnogaeth i'r rhai sy'n absennol yn gyson ar ben y gefnogaeth barhaus i'r plant sydd eisoes yn bresennol. Dylai'r llywodraeth genedlaethol a lleol, ac ysgolion, fod yn cynllunio gan gadw hyn mewn cof.

**Dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol**

Ni all sicrhau presenoldeb fod yn waith i ysgolion yn unig: mae rôl gan awdurdodau lleol i gydlynu pecyn ar draws sectorau. Bydd gweithredu'r fframwaith dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol, a hynny'n llawn ac ar frys, yn golygu bod modd sicrhau'r dull gweithredu amlasiantaeth hwn. Mae ar ysgolion angen help ar draws y sector statudol a'r trydydd sector i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael yr holl gefnogaeth angenrheidiol; mae hynny'n cynnwys cydnabod pwysigrwydd ymateb i amrywiaeth o anghenion a sicrhau bod modd cynnig ystod o opsiynau a datrysiadau i wneud hynny.

**Atal bwlio ac ymateb iddo**

Dangosodd ymchwil[29] gan fy swyddfa yn 2017 fod plant a phobl ifanc eu hunain yn ystyried bwlio fel ffactor arwyddocaol yng nghyswllt absenoldeb. Mae ymwybyddiaeth ddiweddar o amlygrwydd aflonyddu rhywiol gan gyfoedion, a darlun adeiladu data o effaith cam-drin a bwlio hiliol yn amlygu effaith bosibl hyn ar bresenoldeb. Mae nifer o adroddiadau wedi argymell bod angen camau mwy cadarn i atal a mynd i'r afael â bwlio ar sail hunaniaeth, gan gynnwys ymchwil gan Gynghrair Hil Cymru (Race Alliance Wales)[30], EYST[31] a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth (Show Racism the Red Card)[32]. Rwy'n croesawu ymrwymiad diweddar y Llywodraeth i gryfhau'r dyletswyddau statudol ynghylch bwlio ar sail rhagfarn a gyflwynwyd yn Hawliau, Parch a Chydraddoldeb. Rwy'n argymell yn gryf bod yr adolygiad hwn yn cael ei lywio gan brofiadau plant a phobl ifanc eu hunain, a'i fod yn cyflwyno canllawiau clir ynghylch sut mae atal ac ymateb i ddigwyddiadau seiliedig ar ragfarn ar lefel ysgol.

**Enghreifftiau o'r trydydd sector**

Ceir hefyd enghreifftiau o ddulliau gweithredu yn y trydydd sector y gallai gwasanaethau statudol ddysgu oddi wrthynt a'u rhoi ar waith yn ehangach. Mae prosiect Rwydd Arall yng Ngwynedd ac Ynys Môn[33] wedi adrodd am ganlyniadau effeithiol yn sgîl dull person-ganolog o weithio'n ddwys gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o ddatgofrestru. Yn ganolog i'r dull gweithredu hwn mae cyfranogiad ystyrlon y person ifanc, cam hanfodol a ddylai fod yn ganolog i bob menter, gyda phlant o bob oed. Mae angen cynnwys plant a phobl ifanc mewn trafodaethau, fel bod modd deall eu hanghenion, eu pryderon a'u blaenoriaethau, a rhoi'r gefnogaeth gywir yn ei lle. Gall plant fod yn rhan o'r ateb hefyd: gallan nhw helpu i nodi beth fydd yn gwella'u presenoldeb ac yn helpu i sefydlu eu trefn ddyddiol, eu targedau a'u hanghenion cefnogi eu hunain.

**Osgoi cosbi plant mewn lleoliadau**

Cyn y pandemig roedd pryderon ymhlith rhieni a gweithwyr proffesiynol fod rhai o'r cymhellion i leihau absenoldeb yn effeithio ar blant trwy eu cosbi neu eu stigmateiddio, er nad hwy oedd ar fai. Er enghraifft, gall dyfarnu tystysgrifau presenoldeb i unigolion neu ddosbarthiadau dynnu sylw at blant sydd â lefel isel o bresenoldeb a'u stigmateiddio o flaen eu cyfoedion. Gall hyn gael effaith anghymesur ar blant ag

---

29 https://www.childcomwales.org.uk/our-work/commissioners-blog/sams-story/

30 https://racealliance.wales/wp-content/uploads/2021/04/Show-Us-You-Care-Full-Report-1.pdf

31 https://eyst.org.uk/assets/experiences-of-racism-and-race-in-schools-in-wales.pdf?fbclid=IwAR0OfKn36lvBK2RFMRnNNfZSt1m97svQTWMEuu3gtemcpvNMi3dfRAKtpfk

32 Show Racism the Red Card (2020). Racism in Wales? Exploring Prejudice in the Welsh Education System https://static1.squarespace.com/static/574451fe37013bd0515647ac/t/5ed659aa1288d943ddd2a784/1591106007132/Racism+in+Wales+-+Exploring+racism+the+Education+system+May+2020++%28F%29.pdf

33 sylfaen-cymunedol-rhwyd-arall.pdf (sylfaencymunedol.org)

anghenion gofal iechyd, gofalwyr ifanc, a hefyd, fel mae ystadegau blaenorol yn dangos, bydd yn effeithio’n anghymesur ar blant o deuluoedd llai cefnog. Wrth i ymdrechion i gynyddu presenoldeb ddod i ffocws, byddwn i’n gobeithio y bydd egwyddor gyffredinol na ddylid cosbi plant na’u stigmateiddio gan gymhellion.

**Pa mor effeithiol yr ymgysylltir â rhieni a’u cefnogi**

Mae ysgolion cymunedol yn rhan allweddol o strategaeth y Llywodraeth ar gyfer Tegwch Addysgol, ac yn ddiweddar mae’r Llywodraeth wedi darparu £3.48 miliwn ar gyfer cyflogi swyddogion ymgysylltiad teulu. Rhan allweddol o’u rôl yw sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni er mwyn iddyn nhw fedru darparu arweiniad clir a chefnogaeth yng nghyswllt presenoldeb. Mae’r sylfaen gadarn o ymchwil ar gyfer y dull ysgol gymunedol yn awgrymu bod potensial yma i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant a phobl ifanc, yn arbennig mewn cymunedau difreintiedig. Nid datrysiad cyflym yw’r dull gweithredu hwn, a bydd yn galw am ymrwymiad cadarn yn genedlaethol ac ar draws y proffesiwn, a dull gweithredu seiliedig ar asedau yng nghyswllt cyfranogiad ystyrlon y gymuned, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae datblygu dull ysgol gymunedol yn cymryd cryn dipyn o amser, ac os ydyw i lwyddo, mae angen iddo gael ei arwain gan ysgolion a chymunedau eu hunain.

Rwy’n rhybuddio yn erbyn defnyddio mesurau cosbol. Dylai mesurau cosbol fod ar gael dim ond pan fo popeth arall wedi methu, a phan nad oes unrhyw fodd arall i ymgysylltu. Mae awdurdodau lleol wedi esbonio wrth fy swyddfa mai defnyddio mesurau cosbol, ambell waith, yw’r unig ffordd effeithiol o sicrhau bod teuluoedd yn ymateb i’r ymdrechion ac yn ymgysylltu ag unrhyw gefnogaeth, os nad yw’r rhieni’n cyfathrebu â’r awdurdod. Fodd bynnag, ni ddylid byth ddefnyddio rhybuddion cosb benodol neu orchmynion presenoldeb ysgol yn ynysig. Rhaid iddynt fynd law yn llaw â phecyn o gefnogaeth, ac elfen allweddol o hynny fydd siarad â’r teulu a’r plentyn, cymryd amser i ddeall y rhesymau am yr absenoldeb, a rhoi’r gefnogaeth gywir yn ei lle ar gyfer y plentyn dan sylw.

**Gwrando ar blant a phobl ifanc**

Fy ffocws eleni fydd gwrando ar blant a’u teuluoedd am eu profiadau bywyd, gan gynnwys y rhesymau am absenoldebau cyson. Bydd fy ymgynghoriad cenedlaethol, Uchelgeisiau i Gymru[34], yn fy ngalluogi i ddatblygu fy nealltwriaeth o brofiadau plant, ac i ddatblygu fy nghynllun strategol yn unol â blaenoriaethau ac anghenion plant a phobl ifanc. Rwy’n annog gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill hefyd i alluogi plant i gyfranogi yn eu gwaith, yn arbennig mewn ymdrechion i leihau absenoldeb. Ar lefel unigol mae hyn yn hanfodol: ni ellir cefnogi plentyn i ddychwelyd i leoliad heb ddeall yn gyntaf beth sy’n eu cadw i ffwrdd. Ar lefel lleoliad hefyd, mae angen cynnwys plant wrth ddatblygu mentrau i gefnogi presenoldeb yn eu hysgol: mae ar blant angen cyfleoedd ar y cyd i ystyried beth fyddai’n cynyddu presenoldeb ac yn helpu lleoliadau i ddatblygu strategaethau cadarnhaol ar draws yr ysgol gyfan.

Cyflwynwyd gan:



Rocio Cifuentes

34 https://www.childcomwales.org.uk/our-work/ambitions-for-wales/

Comisiynydd Plant Cymru